Cofnodion draft o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu Hydref 1af 2026

Presennol

Eirwyn Thomas (Cadeirydd) , John Evans (Is Gadeirydd), Jane Taylor Williams, Helen Johns, Annwen Hughes, (Cynghorydd a Cynghorydd Sir), Kevin Titley, Gwynfor Owen (Cyng. Sir).

Absennoldeb – Luisse Vassey, Robin Ward. Nia Jones.

Felly dim angen cyfieithydd arnom heno 'ma. Yn bwysig bod rhai sydd angen cyfieithydd yn deud mewn digon o amser os nad ydynt yn bresennol er mwyn I'r Clerc ganslo ei wasanaeth am y noson. Hyn yn arbed cost sylweddol I'r Cyngor.

Datgan Buddiant – dim I'w ddatgan (Ond AH gyda ceisiadau cynllunio)

Adroddiad Cyllid

Yn y Banc diwedd Medi = £40277.29

Wedi talu y canlynol:-

Arfon Hughes	Cyfieuthu Medi	£135	
Dyffryn Iron Designs	Cae Chwarae	£230	
Delyth	Gwefan	£100	
Colin Evans	Hen Fynwent	£225	
NBB	Mainc	£793.80	(VAT o £132.30)
Neuadd	Mis Medi	£12.00	

Heb dderbyn grant PAVO am y fainc hyd yma.

Unrhyw geisiadau Cynllunio – Cais Rhif NP5/62/LB297C

Sef Cais adeilad rhestredig ar gyfer newidiadau mewnol , newidiadau I'r fynedfa bresennol (adledi plinth) a gosod offer trin carthion a draeniau cysylltiedig (cais diwygiedig).

Pasiwyd I anfon I ddweud dim gwrthwynebiad, ond iddynt fod yn ystyriol I drugfannau cyfagos, a ystyried sefyllfa parcio.

Mae'n bwysig bod y gwaith yn cael ei barhau er mwyn diogelwch pobl sydd yn ymweld a'r fynwent.

Derbyn Cofnodion draft mis medi – au cymeradwuo. Ond bod angen cywiro Bryn Gola i Pant Golau ar y cofnodion rheini (Cais Cynllunio Llanfair)

Materion yn Codi o'r Cofnodion hynny.

A.) Y Fynwent

1. Bod angen arwyddion i rwystro plannu ar y beddau. Cymeradwyuo hyn. Clerc I wneud rhai. Newydd da bod son am osod cerrig ar rai o'r beddau dan sylw. Nodwyd hefyd bod y dirprwyaeth o Huchenfeld wedi eu tristhau pan yn ymweld a bed Y diweddar John Wynne ym mynwent y Plwyf.
2. Beth I wneud efo'r cwt? Bod aelodau yr eglwys yn awyddus I gael toiled compost ynddo. Bod un addas iawn mewn mynwent yn Moduan medd Jane T Williams. Pasiwyd nad oedd yr adeilad yn addas – ac mae y penderfyniad gora fydda ei dynnu I lawr yn gyfangwbwl. Holi am bris gan Meirion Jones a Hywel Wyn Jones. Ac I waredu y brics hefyd. Nodwyd hefyd nad yw hyn yn waith cynnwysiedig yn y gyllideb.

B) Cae Chwarae

1. Wet pour – gneud cais am grant? Holi Steve Beech am gymorth.

2. Giat fach I'r cae – yn agored. Ail waith mae'r gwartheg wedi dod trwadd. Rhoi arwyddion arnynt. Hefyd cysylltu gyda Gwyn Evans (llwybrau Cyngor Gwynedd) I edrych a oes modd rhoi pwysa ar y giat iddi gau yn well.

Giat llwybr Sarn Hir hefyd yn cael ei gadael yn gored a gwartheg wedi mynd I'r ffordd. Gofyn I Gwyn Evans (Cyngor Gwynedd) I weld hon.

3. Plygu Gwrych – bod y gwaith yn cael ei wneud ym mis Rhagfyr. Angen gneud cais am arian erbyn 12 o Fawrth. Morfudd wedi son yn y cyfarfod Llywodraethwyr am y posibilrwydd o blant yr Ysgol fynd I weld y grefft hynafol o blygu gwrych. Yr athrawon yn fodlon ar hyn.

4. Plannu coed a bulbiau cenin pedr. Bod arian wedi ei roi ar gyfer hyn gan Drysorydd y Neuadd o gronfa y Neuadd,

C) Huchenfeld - £200 i roi iddynt? Adroddiad o'r cyfarfod. Mae hyn ar gael yn y gyllideb.

D) MATERION CYNGOR SIR

1. Yn ateb I gwyn Marc Williams parthed ffordd Mochras . " Rydym yn ymwybodol o'r difrod yma ac mae ein Arolygwr wedi cael trafodaeth gyda Mark Williams yn mis Awst er egluro fod bwriad gennym i adnewyddu'r ffens a thrwsio'r wal dros y gaeaf pan mae yna lai o draffig yn defnyddio'r ffordd.

Fel rhan o'n rhaglen cynnal a chadw strwythurau wnaethom glirio y tyfiant i gyd gaeaf diwethaf ar hyd y lleoliad yma ac wrth gwrs mae pobol ers hynny yn sylwi mwy ac yn adrodd fod diffygion. Mae'r pyst pren newydd wedi eu taro yna fel mesur dros dro yn y Gwanwyn gan fod darn o'r ffens wedi disgyn drosodd i'r ffordd.

Cadarnhaf nid oes peryg ar y wal, ambell i garreg ar goll neu yn rhydd."

Dyma sylwada ar gwynion eraill -

2. **Baw ger gof golofn** - Byddaf yn trefnu i'r Gwasanaeth Edrychiad Stryd roddi sylw i'r mater
3. **Man hole Bron Meini** -Bydd y Peiriannydd Ardal y trefnu i'r Arolygwr Ffordd asesu'r twll archwilio gan gymryd unrhyw gamau priodol.

Tud 3.

4. **Camper Vans yn parcio** - 'Rwyf yn ymwybodol bod hwn yn fater sy'n effeithio sawl ardal ac mae'r opsiynau sydd ar gael i'w rheoli yn gyfyngedig mewn rhai lleoliadau, serch hynny byddaf yn trafod y sefyllfa leol gyda'r swyddogion perthnasol.

5. **CCTV** - Cadarnhaf mai ni fel adran sydd â chyfrifoldeb dros system gyhoeddus TCC, fe wnaf ymholiadau cychwynnol gyda'r Gwasanaeth gan ddod yn ôl atoch.

Bod y Gwaith yn Llanbedr yn mynd I gychwyn yn fuan. Nododd JTW bod perchennog Rhif 1 hefyd yn mynd I osod camerau ar adeilad Plas Newydd. Wedi cael llond bol o bobl yn parcio ger Plas Newydd.

6. **Gorr Yrru** -Byddaf yn trafod y mater yma gyda'r swyddogion Traffig.

7. **Parcio ar y palmant Plas Newydd** -Byddaf yn trafod y mater yma gyda'r swyddogion Traffig.

HYBRID - beth I wneud efo zoom. Cost sylweddol I'r Cyngor. Gwynfor yn cynnig ei ddarpariaeth o am ddim I'r Cyngor. Hynny y w tan mis Mai 2027 Bydda hynny yn arbed beth arian. Pasiwyd I ystyried canslo darpariaeth zoom. Angen ail edrych ar y sefyllfa yma!!!

Materion Eraill

1. Coeden wedi disgyn ar ffordd Rhiw Garth Goch – wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

ADRODDIAD CYNGHORWYR

Cynghorydd Gwynfor Owen –

1. Drones a Maes Awyr – Bellach yn fater Militaraidd. Angen holi a pwysleisio bod y Maes Awyr wedi derbyn llawer o grantiau at wella y safle.
2. Pryder I doriadau gan Gyngor Gwynedd hyd at 5% ar gyllideb 2027/28
3. Gwasanaeth Bws G23 o Bermo hyd at Pwllheli. Bydd y gwasanaeth yma yn mynd hyd at Abersoch. Yr un nifer o fuses.
4. Wedi bod yn cydweithio gyda rhieni efo plant ac anableddau dysgu/ anghenion dysgu ychwanegol. Nododd bod cyfnod gwyliau fel gwyliau haf yn straen ar rieni.
5. Grantiau – holi Steve Bech.
6. Wedi mynychu cyfarfod gyfeillio a hefyd wedi gwirfoddoli yn yr Wyl Gwrw. Angen llongyfarch y ddau fudiad am eu Gwaith. Nododd ETh bod elw o £17000 wedi ei wneud yn yr Wyl Gwrw. Nododd ETh bod nifer dda o Gymry wedi mynychu yr Wyl Gwrw eleni. O Corwen, Abersoch, Bangor, Dinbych, Welshpool, Shrewsbury. Nododd hefyd bod hi yn biti nad oes diddordeb gan y rhai ifanc ymuno ar y Pwyllgor.
7. Treth a r ymwelwyr. Ymgynghoriad. Gohiriwyd rhag gwneud penderfyniad er mwyn I'r Swyddogion Cyngor Gwynedd wneud yn siwr bod yr Ymgynghoriad wedi bod yn un teg.

Cynghorydd Annwen Hughes

1. Yn falch bod coed Sarn Hir wedi eu torri, ond wrth wneud y Gawith bod arwydd LLANBEDR wedi plygu ac yn fudr. Angen gofyn am un Newydd.
2. Modur wedi llosgi ar ffoedd Mochras.
3. Arwyddion y n cael eu troi – Pentre Gwynfryn a arwydd ger Efail Dywyll.

4. Gwaith yn cychwyn ar Sarn |Hir o 7 y nos tan 6 y bore.
5. Gwifrau trydan Bermo – ffordd ar gau ymaam 3 wythnos
6. Tylla ffordd Cwm Bychan wedi ei trwshio.
7. Llanast/ a carafan ger capel Bach.
8. Arogl cyffuriau – yr heddlu yn gwybod am hyn.
9. Cais gan Sian Llwyd am gyllid – tuag at Prosiect Adeiladu Dyfodol Disglair efo Plant Ysgol Ardudwy. Gofyn I gynghorau o Berm I Penrhyn am gyfraniad – tua £200. Pasiwyd I gefnogi hyn mewn egwyddor. Plant yn dangos diffyg parch.

Nododd Gwynfor Owen bod problem gyda scooters a beics trydan.

Materion Eraill

1. Coeden wedi disgyn ar ffordd Rhiw Garth Goch – wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.
2. ETH – yn nodi bod angen gwneud mwy o waith yn Cae Deiliog. Ac felly mwy o gosta hefyd. Coed wedi eu prynu, ac angen tocio ar y drain. Angen criw o wirfoddolwyr I wneud hyn. Pasiwyd I roi £200 tuag at hyn
3. Sul y Cofio – pasiwyd I gynnig te ar y diwedd yn y Neuadd. Ac archebu 2 dorch eleni. Un Cymunedol ac un I roi ar Barney Warburton. Nododd KT bod yna gamgymeriadau yn y bar code ger y gof golofn parthed enw Robert P Jones Bryn Moel a Richard Lloyd Jones Gellibant. Angen holi parthed hyn.
4. JTW _ Llanbedr yn fler – llanast I lawr o Glennydd at yr afon. Hefyd polion trydan/ffon drwy Pentre Gwynfryn yn broblem – culhau y ffyrdd.
5. Helen Johns – nodi bod Gwaith ger Crossing Talwrn Bach wedi ei wneud.
6. John Evans – bod kerb ger Ty Mawr wedi symud.
7. JE – fania yn parcio gyferbyn a Mynwent Moreia. Rhwystro pobl weld trafnidiaeth y ffordd. (Yn cysgodi'r drych.)
8. Nodwyd bod Pwyllgor Neuadd wedi derbyn £3000 o ewyllys Jamie Gaskell yn ddiweddar. Pasiwyd fel cydnabyddiaeth I roi plac ar fainc ger y Neuadd.
9. Kevin Titley – nifer o goed yn yr afon ger Y Felin. (Cyfoeth Naturiol Cymru). Perygl yw mae cyfrifoldeb y tir feddiannwr yw hyn)

Gan feddwl am y geiriau canlynol I roi ar blac

"Er Cof

am Jamie Gaskell

1958 – 2024

Enaid caredig a ganfu harddwch ym myd natur ac yn y byd o'I gwmpas